



**Adroddiad Blynyddol  
ar safonau'r Gymraeg ar gyfer 2016/17**

## **Cynnwys**

**Trosolwg..... 3**

**Paratoi at y Safonau..... 3**

### **Cydymffurfio**

**Cyflenwi Gwasanaethau..... 4**

**Llunio Polisi..... 5**

**Gweithredol..... 5**

## **Cyswllt**

Cysylltwch â ni ar [cymraeg@wno.org.uk](mailto:cymraeg@wno.org.uk) os hoffech ragor o wybodaeth am yr adroddiad hwn.

***Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn y Saesneg | This report is also available in English***

## Cyflwyniad

Mae safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi rhoi fframwaith cyfreithiol yn ei le sy'n sicrhau hawl i unigolion gael mynediad at wasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Opera Cenedlaethol Cymru (WNO) yn ddarostyngedig i'r Mesur ac, ers 25 Ionawr 2017, mae wedi cydymffurfio â'r safonau ac, fel y nodir isod, gosodwyd nifer o safonau ychwanegol ar 25 Gorffennaf.

'Mae WNO wedi ymrwmo i gyflawni'r safonau – mae ein treftadaeth Cymreig a'r iaith Gymraeg yn bwysig i ni a dyma'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw.'

Rydym yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg pan fyddwn yn:

- Ysgrifennu llythyrau neu e-bost
- Derbyn galwadau ffôn
- Trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau
- Hyrwyddo ein gwaith mewn deunydd wedi'i argraffu neu ar-lein
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Cyhoeddi unrhyw ddogfennau cyhoeddus
- Darparu gwasanaeth derbynfa yn ystod ein cynyrchiadau

Yn sgil amseriad y broses o gyflwyno'r safonau, mae'r adroddiad hwn, ein cyntaf, yn ymdrin â'r cyfnod rhwng y dyddiad pan ddaeth y safonau'n weithredol a diwedd ein Blwyddyn Ariannol (31 Awst). Mae'n canolbwyntio ar y gwaith a wnaed i baratoi at y safonau.

## Y safonau a WNO - Trosolwg

Mae cyfanswm o 136 o safonau wedi'u gosod ar WNO mewn pum maes:

Safonau	Cydymffurfio 25.01.2017	Cydymffurfio 25.07.2017	Cyfanswm
Cyflenwi Gwasanaethau	52	5	57
Llunio Polisi	9	-	9
Gweithredol	18	24	42
Cadw Cofnodion	7	1	8
Atodol	20	-	20

## Y safonau a WNO - Cynllunio

Wedi derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol ddiwedd Gorffennaf 2016, penderfynodd WNO weithredu dull strategol wrth gynllunio am y safonau. Wedi sicrhau cymorth cwmni arbenigol **Ateb**, ymgwymerwyd ag **archwiliad a dadansoddiad** llawn er mwyn sefydlu ymhle y byddai'n rhaid i ni ganolbwyntio wrth baratoi at y safonau.

Cynhyrchwyd **Cynllun Gweithredu** manwl a oedd yn amlygu'r gwaith oedd ei angen i sicrhau y byddem yn medru cydymffurfio erbyn y dyddiad cyflwyno ym mis Ionawr. Roedd staff allweddol a thimau perthnasol yn rhan o gynhyrchu'r cynllun.

Cynhyrchwyd **canllawiau a dogfennau** newydd a diwygiedig oedd yn ymdrin ag amrediad eang o feysydd i helpu staff WNO i gydymffurfio. Roedd y rhain yn cynnwys Cynllun Cydymffurfio cynhwysfawr, sydd ar gael ar ein gwefan a chanllaw cydymffurfio i staff.

Datblygwyd **Siarter Iaith** Gymraeg newydd, wedi'i dylunio i esbonio i'r cyhoedd ynghylch sut rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel rhan o'r gwaith paratoi, datblygwyd **ymgyrch cyfathrebu fewnol**, a'r amcanion oedd:

- Codi ymwybyddiaeth y staff am eu cyfrifoldebau
- Amlygu'r help sydd ar gael iddynt yn eu bywydau gwaith o ddydd i ddydd

Gan weithio gydag **Ateb** a chydweithwyr o Ganolfan Mileniwm Cymru, cynhaliwyd sesiynau briffio i staff ym mis Ionawr. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a chyflwyno neges gyson ynghylch yr hyn yr oedd angen i ni ei wneud i ymateb i'r safonau.

## Y safonau a WNO – Cyflenwi Gwasanaethau

Roedd y camau gweithredu y rhoddwyd yn eu lle i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn cynnwys rhoi prosesau yn eu lle yn y meysydd canlynol:

- **Cyfathrebu gyda WNO**
  - Rhoi cynlluniau yn eu lle i sicrhau ein bod yn ysgrifennu at bobl yn ddwyieithog pan fyddwn yn gwneud hynny am y tro cyntaf neu os nad ydym yn gwybod ym mha iaith yr hoffent i ni gyfathrebu gyda nhw
  - Sicrhau ein bod yn nodi'n glir yn ein gohebiaeth, ein hysbysebion a'n cyhoeddiadau ein bod yn croesawu cyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg
  - Cynnig cyfle i'n 'cyfeillion' a'n rhoddwyr dderbyn gohebiaeth gennym drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Cysylltu dros y ffôn**
  - Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n derbyn galwadau ffôn yn uniongyrchol gan y cyhoedd yn eu cyfarch yn Gymraeg
- **Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig**
  - Sicrhau bod yr holl ddogfennau, deunydd hyrwyddo a hysbysebion yr ydym yn eu cynhyrchu ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bod y naill iaith mor amlwg â'r llall
  - Hyrwyddo ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn ein rhaglen dymhorol
- **Digidol ac ar-lein**
  - Fe wnaethom adolygu ein gwefan i sicrhau ei bod yn gwbl ddwyieithog
  - Fe wnaethom ddatblygu adran benodol ar ein gwefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ynghylch sut mae WNO yn cydymffurfio â'r safonau iaith

Credwn ein bod yn llwyddo i gydymffurfio â'r safonau gofynnol yn y maes hwn. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

## Y safonau a WNO – Llunio Polisi

Fe wnaethom ddatblygu teclyn asesu er mwyn asesu effaith polisiâu perthnasol newydd a rhai diwygiedig ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg

Gan ddefnyddio'r teclyn, aseswyd ein polisiâu AD, ac mae'r cyfan bellach ar gael yn Gymraeg.

Credwn ein bod yn llwyddo i gydymffurfio â'r safonau gofynnol yn y maes hwn. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r safonau Llunio Polisi.

## Y safonau a WNO - Gweithredol

Canolbwyntiodd ein gwaith paratoi ar ddatblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith a chadarnhau'r gofynion cydymffurfio yng nghyswllt meysydd Adnoddau Dynol allweddol megis recriwtio, datblygiad personol a gweithdrefnau disgyblu a chwynion.

Yn unol â gofynion y safonau, rydym yn ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag yr ydym yn eu hysbysebu. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom hysbysebu cyfanswm o 13 swydd, ac fe'u dosbarthwyd fel a ganlyn:

Swyddi ble roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol	1
Swyddi ble roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl cael eich penodi i'r swydd	0
Swyddi ble roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol	7
Swyddi ble nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	5

Bellach, rydym hefyd yn cofnodi nifer yr aelodau staff sydd â **sgiliau iaith Gymraeg** ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Ar ddiwedd 2016/17 roedd y sefyllfa fel a ganlyn:

Cyfanswm Nifer y staff = 234

Cyfanswm nifer o staff gyda sgiliau gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu iaith Gymraeg, yn seiliedig ar hunan-asesiad (lefel 3 ac uwch) = 21 (9%)

Cyfanswm nifer o staff gyda sgiliau gwranddo a darllen iaith Gymraeg sylfaenol, yn seiliedig ar hunan-asesiad (lefelau 1 a 2) = 54 (23%)

Cyfanswm nifer o staff gyda sgiliau siarad ac ysgrifennu iaith Gymraeg sylfaenol, yn seiliedig ar hunan-asesiad (lefelau 1 a 2) = 18 (8%)

Yn unol â safon 124, a osodwyd ddiwedd mis Gorffennaf, rydym yn cynnig **hyfforddiant** Cymraeg mewn meysydd penodol, pan ddarperir hyfforddiant yn y meysydd hynny yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynigiwyd un cyfle hyfforddiant perthnasol i reolwyr; ni nododd yr un o'r rhai oedd yn bresennol eu bod yn dymuno derbyn yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Credwn ein bod yn llwyddo i gydymffurfio â'r safonau gofynnol yn y maes hwn. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r safonau Gweithredol.